TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Tecstilau

Yn gryno

Ydych chi wedi cael eich ysbrydoli gan y ffasiwn ddiweddaraf mewn gwnïo gartref ond ddim yn gwybod ble i ddechrau? Dyma'r cwrs gwnïo perffaith i ddechreuwyr neu ddysgwyr sydd â rhywfaint o wybodaeth sylfaenol o greu dillad i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

Dysgwch sut i wneud eich dillad eich hun, sut i ddarllen patrwm masnachol, dewis y defnydd cywir a pherffeithio'r technegau adeiladu hynny.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sydd am ddysgu sgiliau gwnïo neu wella eu sgiliau presennol

...rheiny sydd eisiau datblygu eu hyder wrth wnïo

...pobl sydd eisiau dysgu technegau ar gyfer gorffeniadau proffesiynol.

Cynnwys y cwrs

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Yn ystod y cwrs, byddwch yn ymdrin â sawl agwedd ar baratoi, y patrwm masnachol, creu dillad ac offer a chyfarpar angenrheidiol.

Dyma rai o'r meysydd y byddwn yn dod ar eu traws:

Adnabod eich peiriant gwnïo
Sut i ddefnyddio'r defnydd a'r cynllun 'cywir' wrth baratoi i dorri
Meistroli'r technegau – sipiau, coleri, llewys, pocedi a llawer mwy
Sut i gwblhau prosiect 'hwnnw' a sicrhau ei fod yn ffitio!

Gallwn ymdrin ag unrhyw sgiliau sydd eu hangen i gwblhau dilledyn. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd, ond cam wrth gam byddwch yn llunio eich dilledyn ac yn ei addasu i ffitio yn ôl yr angen!

Mae'r cwrs wedi'i strwythuro o amgylch prosiect gwnïo cyflawn wrth ddysgu'r technegau cywir i gyflawni gorffeniad proffesiynol. Mewn amgylchedd cyfeillgar, cewch adborth gan y tiwtor a chyfoedion yn rheolaidd.

Gofynion Mynediad

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r Ysgol Celfyddydau Creadigol yn cynnig casgliad o gyrsiau gydol y flwyddyn.

Y cyrsiau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd yw:

Tecstilau
Cerameg
Gwneud Printiau
Ffotograffiaeth
Argraffu 3D
Ymarfer Llesiant Creadigol a'r Celfyddydau
Sgiliau DJ gan ddefnyddio Ableton Live
Y Celfyddydau Perfformio
Canu ar gyfer Pleser
Ysgrifennu Creadigol
Uwchgylchu Dodrefn a Chrefft

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwneud Gemwaith
Lluniadu Digidol gan ddefnyddio Procreate
Lansio Menter/Busnes Creadigol

Bydd angen i chi brynu un patrwm masnachol ar gyfer dilledyn syml a digon o ddefnydd i'w gwblhau. Gellir trafod dewisiadau cywir yn ystod cam cychwynnol y cwrs.

Mae gan yr ardal weithio'r holl offer a pheiriannau angenrheidiol, er mae'n bosibl y byddwch eisiau defnyddio eich sisyrnau ac ati eich hunain.